Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1333 (Cy. 231) (C. 44)

# DEHONGLI DEDDFWRIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn Rhan 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2020. Felly bydd Rhan 2 o'r Ddeddf yn gymwys i Ddeddfau'r Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Ionawr 2020 neu ar ôl 1 Ionawr 2020, ac i is-offerynnau Cymreig a wneir ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio darpariaethau sy'n cyfeirio at y diwrnod y daw Rhan 2 i rym, er mwyn iddynt gyfeirio at 1 Ionawr 2020 yn lle hynny.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1333 (Cy. 231) (C. 44)

# DEHONGLI DEDDFWRIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019

*Gwnaed* *10 Hydref 2019*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 38 a 44(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(**1**).

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2019" yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 .

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2020**

**2.** Daw Rhan 2 o Ddeddf 2019 i rym at bob diben sy'n weddill ar 1 Ionawr 2020.

**Diwygio cyfeiriadau at y diwrnod y daw Rhan 2 o Ddeddf 2019 i rym yn llawn**

**3.** Yn adran 3(1) o Ddeddf 2019—

(a) ym mharagraff (b), yn lle "y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym yn llawn neu ar ôl y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym yn llawn" rhodder "1 Ionawr 2020 neu ar ôl y diwrnod hwnnw";

(**1**) 2019 dccc 4. Caniateir arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 38 er mwyn gwneud gorchymyn yn rhinwedd adran 39.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ym mharagraff (c), yn lle "y diwrnod hwnnw", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder "1 Ionawr 2020".

**4.** Yn lle adran 23B o Ddeddf Dehongli 1978(**1**)—

(a) yn is-adran (1)(b), yn lle "the day on which Part 2 of that Act (interpretation and operation of Welsh legislation) comes fully into force" rhodder "1 January 2020 (the day on which Part 2 of that Act comes fully into force)";

(b) yn is-adrannau (2)(b) a (3)(a), yn lle "the day on which Part 2 of the Legislation (Wales) Act 2019 comes fully into force" rhodder "1 January 2020".

*Mark Drakeford*
Prif Weinidog Cymru
10 Hydref 2019

(**1**) 1978 p. 30. Mewnosodwyd adran 23B gan baragraff 11 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ac fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2019.